Gyrfa Cymru
Careers Wales

Bwletin Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) Gyrfa Cymru: Ebrill 2023


# Prentisiaethau yng Nghymru

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## Cynnwys


1. Ciplun o benawdau Prentisiaethau i Gymru ............ 3
2. Rhagarweiniad ............ 4
3. Tirwedd y Polisi ............ 5
4. Llwybrau at Brentisiaethau ............ 6
5. Nifer y Prentisiaethau yng Nghymru ............ 9
6. Darpariaeth Prentisiaethau yng Nghymru ............ 12
7. Gwerth Economaidd Prentisiaethau ............ 13
8. Prentisiaethau ar draws rhanbarthau Cymru ............ 14
9. Gwybodaeth Bellach ............ 16

## 1. Ciplun o benawdau Prentisiaethau i Gymru




***Nodyn Rhybudd:*** *Gall effeithiau'r pandemig Coronafeirws fod wedi effeithio ar nifer y dechreuadau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r ystyriaethau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys y gallai diweddu'r cyllid ESF leihau nifer y prentisiaethau sy'n dechrau o 2024 ymlaen.*

## 2. Rhagarweiniad

Ffocws yr adroddiad hwn yw archwilio’r dirwedd brentisiaethau yng Nghymru o’r polisi, y ddarpariaeth, y llwybrau a’r niferoedd presennol sy’n cymryd rhan ar hyd a lled Cymru.


Mae prentisiaethau’n rhan o’r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant eraill. Mae'r sector Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys rhaglenni Prentisiaethau a Thwf Swyddi Cymru+.
Daeth trefniadau contract dysgu seiliedig ar waith newydd i rym ar 1 Awst 2021.

Mae’r bwletin gwybodaeth hwn yn canolbwyntio ar y diffiniadau presennol o Brentisiaethau yng Nghymru:

- Prentisiaethau Sylfaen (Lefel 2)
- Prentisiaethau (cymhwyster Lefel 3)
- Prentisiaethau Uwch (cymhwyster Lefel 4+)

Mae Prentisiaethau hefyd ar gael fel Prentisiaethau Gradd.

Mae Prentisiaethau Dewis Doeth Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at fanteision y cyfle i gael profiad gwaith ymarferol mewn lleoliad cyflogedig yn ogystal ag ennill cymhwyster sy’n cael ei gydnabod yn genedlaethol.



## 3. Tirwedd y Polisi




Roedd Cynllun Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau i Gymru, a gyhoeddwyd yn 2020, yn cynnwys prif flaenoriaeth i gryfhau'r dull system gyfan er mwyn ei gwneud yn haws i bawb dan 25 oed gael mynediad at y cynnig o waith, hyfforddiant neu hunan-gyflogaeth.
Cynyddodd y flaenoriaeth hon y cyllid prentisiaeth o £366m gyda'r nod o greu 125,000 o brentisiaethau newydd fyddai'n dechrau dros dymor presennol Llywodraeth Cymru, hyd at 2026.

Cyflwynwyd y Warant i Bobl Ifanc yn 2021 a dyma ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i bawb o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru, y bydd yn darparu cymorth i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, a chymorth i gael gwaith neu ddod yn hunangyflogedig. Cefnogir y warant gan ddarpariaeth eang i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar gymorth effeithiol sy'n gweithio iddyn nhw, gyda Phrentisiaethau yn un o'r opsiynau hynny. Mae Cymru'n Gweithio (Gyrfa Cymru) wedi'i gosod fel y 'porth' i'r warant.

**Gwarant i Bobl Ifanc**




Gall Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru eich helpu i feithrin agwedd bositif.

### Blaenoriaethau Cynllun Prentisiaeth Llywodraeth Cymru

Mae Manyleb Rhaglen Llywodraeth Cymru (2021-2025) yn manylu ar y cytundeb ar gyfer darparu ac ariannu rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW). Nid yw Prentisiaethau Gradd wedi'u cynnwys yn y Fanyleb Rhaglen hon.

Nodau Llywodraeth Cymru yw:

- Datblygu sgiliau lefel uwch ar lefel 3 ac uwch.
- Gwella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal
- Cynyddu nifer y prentisiaid rhwng 16-19 oed a chynyddu nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol sy'n mynd ymlaen i brentisiaethau o safon uchel.
- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau, yn enwedig mewn sectorau twf a chategorïau swyddi newydd
- Cryfhau cyfleoedd i ymgymryd â phrentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Gweithio gyda chyflogwyr a chyrff cyflogwyr i ysgogi amrywiaeth ac arloesedd.
- Datblygu llwybrau sgiliau: integreiddio prentisiaethau i'r system addysg ehangach.
- Gwella mesurau perfformiad er mwyn canolbwyntio ar gyflawni cyflogaeth.
- Rhaid i gontractwyr sy'n cyflwyno rhaglenni Prentisiaeth Sylfaen, Prentisiaeth a Phrentisiaeth Uwch ennill cyfradd llwyddiant fframwaith o 75% o leiaf.

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â negeseuon ac argymhellion allweddol a nodwyd yng Nghynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y 4 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Un ystyriaeth bwysig yw bod Rhaglenni Prentisiaeth yn cael eu hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (*ESF*). Disgwylir i'r *ESF* ddod i ben ym mis Rhagfyr 2023, felly o'r flwyddyn ariannol 24-25 ymlaen, efallai y bydd angen i'r rhaglenni hyn **leihau** lefelau gweithgarwch neu ddechreuadau newydd er mwyn eu rheoli oddi mewn i'r gyllideb sydd ar gael, os na ellir ceisio cyllid o'r gronfa ffyniant a rennir ar sail lefelau cyfatebol.

## 4. Llwybrau at Brentisiaethau

Mae Llwybrau i bobl ifanc i Raglenni Prentisiaethau yn dechrau yn yr ysgol, o wybodaeth a phrofiadau a enillwyd trwy Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau cysylltiedig â Byd Gwaith (Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith), o 3-16 oed. Mae Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith effeithiol yn cynnwys addysg gyrfaoedd sydd wedi'i gwreiddio ar draws y meysydd dysgu a gefnogir gan ystod o brofiadau dysgu cysylltiedig â byd gwaith. Mae Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith yn galluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth wrth baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd dysgu pellach a byd gwaith.

> *'Mae hyn fel arfer yn cynnwys dealltwriaeth o lwybrau addysg a hyfforddiant, y farchnad lafur ynghyd â natur a dyfodol newidiol gyrfaoedd a gwaith.'*

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn darparu fframwaith ardderchog ar gyfer Gyrfaoedd a Phrofiadau Byd Gwaith, er mwyn sicrhau'r canlynol:

> *'Mae angen i bob person ifanc adael yr ysgol gyda syniad clir o'r cyfeiriad y maent yn symud iddo. Mae angen iddynt wybod sut i wireddu eu cynlluniau, a meddu ar y ddealltwriaeth a'r sgiliau i fod yn hyblyg, yn wydn ac yn fentrus wrth reoli newid a thrawsnewidiadau annisgwyl.*
>
> *Mae'n bwysig bod pob ysgol yn gwreiddio Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith fel thema drawsbynciol yn y cwricwlwm cyfan.'*

### Y data ar lwybrau i brentisiaethau o'r ysgol

**Gwirio Gyrfa**

Arolwg blynyddol yw Gwirio Gyrfa o tua 30,000 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol (CA) 4 mewn ysgolion ar draws Cymru (Blwyddyn 10-11). Mae'r arolwg yn rhoi arwydd o syniadau gyrfa disgyblion a'r camau nesaf. Mae'r arolwg yn casglu'r camau nesaf y bwriedir eu cymryd gan y disgyblion gan ofyn a oes ganddynt ddiddordeb mewn prentisiaeth ar ôl gadael yr ysgol. Nododd yr arolwg Gwirio Gyrfa diweddaraf o 2022 fod 11% o ddisgyblion CA4 wedi nodi mai prentisiaeth fyddai eu dewis cyntaf ar ôl blwyddyn 11.


**Hynt disgyblion**

Arolwg blynyddol o bobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ym Mlynyddoedd 11, 12 ac 13 yw hynt disgyblion, a gynhelir gan Gyrfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.
**Nid** yw data hynt disgyblion yn cynnwys y rhai sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur o Golegau Addysg Bellach, sy'n cynrychioli bron i 45% o'r disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11.
Cyhoeddwyd y data diweddaraf am hynt disgyblion a gyhoeddwyd ar gyfer disgyblion oedd yn gadael yr ysgol ym mis Gorffennaf 2022 ar 4 Ebrill ac mae'n darparu gwybodaeth am hynt cyntaf disgyblion sy'n gadael yr ysgol, gwybodaeth a gasglwyd yn yr arolwg blynyddol a ddaeth i ben ym mis Hydref 2022.

Cyfanswm cyfartalog y disgyblion mewn Blwyddyn 11 nodweddiadol dros y 6 blynedd diwethaf yw tua 31,000 o ddisgyblion yn flynyddol. Yn yr arolwg Hynt, mae'r disgyblion sy'n 'mynd i mewn i'r farchnad lafur' yn perthyn i dri chategori:

- Statws heb fod yn gyflogedig – ddim ar Brentisiaeth
- Statws Cyflogedig – Prentisiaethau (pob lefel)
- Arall

**Graff 1: Nifer y disgyblion sy'n dod i mewn i'r farchnad lafur fel eu hynt cyntaf o'r ysgol**





Ffynhonnell: [Hynt disgyblion | Gyrfa Cymru 2023]

Mae Graff 1 yn dangos adferiad da yn dilyn y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy’n mynd i mewn i’r farchnad lafur oherwydd COVID-19. Mae data hynt disgyblion diweddar yn dangos bod tua 8.5% o ddisgyblion yn mynd i mewn i'r farchnad lafur o'r ysgol (cyfanswm o 55,715 o ddisgyblion o bob blwyddyn gadael ysgol - 11, 12 a 13).
Gellir dadansoddi'r wybodaeth hon ymhellach ar gyfer yr oedran gadael ysgol sef 16, 17 a 18 fel y gwelir yn Siart 1 uchod.

Ers 2017, mae’r 6 blynedd diwethaf wedi tystio i ostyngiad graddol yn y niferoedd sy’n mynd i mewn i’r farchnad lafur o’r ysgol. Er hynny, mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi gweld cynnydd ar draws pob grŵp oedran a niferoedd, gan ddychwelyd i'r lefelau blaenorol a welwyd ddiwethaf yn 2017. Mae'n bwysig nodi y gallai'r rhai sy'n ymuno â'r farchnad lafur ym mlwyddyn 13 fod yn cymryd blwyddyn allan cyn symud ymlaen i addysg uwch.

Mae Siart Bar 2 isod yn dangos nifer cyrchfannau disgyblion i'r farchnad lafur yn ôl eu statws.

**Siart Bar 2: Math o hyfforddiant seiliedig ar waith a gyflwynwyd yn ôl statws**




Ffynhonnell: Hynt disgyblion | Gyrfa Cymru 2023

- Mae cyfanswm nifer y disgyblion sy’n gadael yr ysgol ac sy'n mynd i mewn i'r farchnad lafur wedi gweld cynnydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dilyn y gostyngiad sydyn oherwydd COVID-19. Mae’r data diweddaraf yn dangos bod y niferoedd sy’n mynd i mewn i’r farchnad lafur bellach yn uwch na’r niferoedd cyn COVID yn 2019.
- Mae’r disgyblion ysgol sy’n ymuno â’r farchnad lafur ar gyfer cyfleoedd Statws Cyflogedig (Prentisiaethau) wedi cynyddu 16% ers 2017.
- Mae’r disgyblion ysgol sy’n ymuno â’r farchnad lafur ar gyfer cyfleoedd statws di-waith wedi gweld gostyngiad graddol dros y 6 blynedd diwethaf, gostyngiad o 48% ers 2017.
- Mae’r rhai sy’n mynd i mewn i’r farchnad lafur yn y categori ‘arall’ yn parhau i fod yn niferoedd sylweddol o ran cymhariaeth, a’r disgyblion sy’n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13 yw’r niferoedd mwyaf yn y categori hwn. Gallai’r rhain gynnwys disgyblion Blwyddyn 13 sy’n sicrhau cyflogaeth dros dro yn ystod blwyddyn i ffwrdd cyn mynd ymlaen i addysg uwch.
- Mae cyfyngiadau'r data hynt disgyblion yn eithrio dysgwyr sy'n gadael addysg bellach er mwyn rhoi darlun cyflawn o'r llwybrau i brentisiaethau yng Nghymru.
- Nid yw hynt disgyblion Addysg Bellach i brentisiaethau ar gael yn yr ystadegau swyddogol.
- Hefyd, mae cyfyngiadau o ran nodi hynt disgyblion y tu hwnt i addysg uwch i brentisiaethau.

### Llwybrau at brentisiaeth y tu hwnt i addysg

Mae ffynonellau gwybodaeth ar Brentisiaethau yn enfawr a gallent fod yn gymhleth neu'n frawychus. Mae cymorth a help i ddod o hyd i brentisiaethau ar gael gan rwydwaith eang o ddarparwyr sy’n cynnig gwasanaethau gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chyflogadwyedd.


Mae gan Gyrfa Cymru dudalen ddefnyddiol o gysylltiadau, gwybodaeth a rhestr o gyflogwyr sy’n recriwtio ar y dudalen we Sut i gael Prentisiaeth, ac mae hon hefyd yn cysylltu â Chwilio am Brentisiaethau Llywodraeth Cymru am swyddi gwag.

## 5. Nifer y Prentisiaethau yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu data ar Brentisiaethau yng Nghymru mewn dangosfwrdd rhyngweithiol sy'n cael ei gyflwyno fesul rhanbarth, math o raglen, grŵp oedran, sector, rhywedd a blwyddyn academaidd. Mae'r dangosfwrdd hwn hefyd yn olrhain targed y Llywodraeth o gyrraedd 125,000 o brentisiaethau newydd erbyn 2026.

Rydym wedi dadansoddi ystadegau swyddogol yn ymwneud â darpariaeth dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru sydd ar gael gan Stats Cymru. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn berthnasol i'r flwyddyn 2021-2022.

**Siart Bar 3: Rhaglenni Prentisiaeth fesul Rhanbarth ac Oedran**





**Ffynhonnell: Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd yn ôl chwarter, sector a math o raglen (llyw.cymru) Mawrth 2023**

Mae Tabl 3 yn dangos y duedd mewn rhaglenni dysgu prentisiaethau o 2017-2022.
Cyfanswm yr holl raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd yn 2021-22 ar draws Cymru oedd 20,040
Mae'r grŵp mwyaf o ddechreuadau rhaglenni ar gyfer Lefel 2 yn 9,160 a 7,425 ar Lefel 3.
Dechreuodd 5,040 o raglenni yn 2021-22 ar gyfer y grŵp oedran 25-39 (25%). Mae'r grŵp oedran 25 i 39 yn gyson yn cynrychioli'r grŵp mwyaf ers 2018.
Mae hyn yn awgrymu bod y grŵp mwyaf sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau eisoes mewn cyflogaeth.

Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 39,370 o ddysgwyr wedi cofrestru mewn dysgu seiliedig ar waith ar hyd a lled Cymru yn 2021-22 ar gyfer pob lefel a rhaglen. Roedd 45% yn ddynion a 55% yn fenywod.


### Siart Bar 4: Rhaglenni Dysgu Prentisiaeth fesul Diwydiant




**Ffynhonnell:** Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a math o raglen (llyw.cymru) **Mawrth 2023**

Mae Siart Bar 4 uchod yn dangos nifer uwch o ddysgwyr gwrywaidd 16-24 oed sy'n dechrau ar raglenni Adeiladu a Pheirianneg. Er hynny, rhwng 25-59 oed, mae mwy o ddynion yn cael eu cynrychioli yn y rhaglenni prentisiaeth Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus a Rheolaeth a Phroffesiynol.
Mae Rheoli a Phroffesiynol yn cynnwys swyddi fel Dysgu a Datblygu, Rheoli Adnoddau Dynol, Cymorth Digidol a Rheolaeth Gyffredinol.


### Siart Bar 5: Diwydiannau sy'n cynnig Prentisiaethau - Merched ac Oedran




**Ffynhonnell:** Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a math o raglen (llyw.cymru) **Mawrth 2023**

Mae Siart Bar 5 uchod yn dangos mai Merched 25-39 oed oedd y grŵp mwyaf a gynrychiolwyd yn y rhaglen Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus a ddechreuwyd. 6,485 o ferched o'i gymharu â 1,390 o ddynion, 79% yn uwch. Mae hyn wedyn yn duedd sy'n parhau ar gyfer merched hyd at 59 oed.
Mae dechreuadau prentisiaeth mewn rhaglenni Rheolaeth a Phroffesiynol 46% yn uwch ar gyfer merched na dynion.
Mae Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys swyddi fel Gofal Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyngor ac Arweiniad a Chymorth Iechyd.

### Siart Bar 6: Sectorau â'r nifer uchaf o Raglenni Dysgu Prentisiaethau 2012-2022




**Ffynhonnell:** **Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd fesul chwarter, sector a math o raglen (llyw.cymru) Mawrth 2023**

Mae Siart Bar 6 uchod yn dangos bod Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyson wedi dechrau ar y nifer fwyaf o raglenni prentisiaeth dros y 10 mlynedd diwethaf. Roedd 38% o'r holl raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd dros y cyfnod o 10 mlynedd yn ymwneud â dysgu yn y sector Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gweithwyr y Sector Cyhoeddus yn cyfrif am draean o weithlu Cymru. (StatsCymru)
8,020 yw nifer y rhaglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd mewn Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ar bob lefel ar gyfer 2021-22. Roedd dros hanner (57%) y rhain mewn rhaglenni Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cynrychioli cyfran o 23% o'r holl raglenni prentisiaeth a ddechreuwyd yng Nghymru.
Mae'r tabl hwn wedi'i gyfyngu i ddangos y 5 grŵp diwydiant sydd â'r niferoedd uchaf o ddechreuadau ar raglenni prentisiaeth ac nid yw pob diwydiant yn cael ei gynrychioli yn y tabl.

## 6. Darpariaeth Prentisiaethau yng Nghymru

Mae prentisiaethau yng Nghymru ar gael ar draws 23 o sectorau diwydiant wedi'u rhannu'n Fframweithiau gwahanol. Mae'r fframweithiau hyn yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi gan yr Awdurdod Cyhoeddi priodol (e.e. *CITB, Lantra, Skills Active, EU Skills* ac ati).

Gallwch weld y fframweithiau llawn sydd ar gael yng Nghymru yn Llyfrgell Fframweithiau Apprenticeship Certification Wales / Ardystio Prentisiaethau Cymru.

Mae'r llyfrgell fframwaith yn cynnwys 110 o deitlau sy'n berthnasol i wahanol rolau swyddi ar draws 23 o sectorau, o Lefelau cymhwyster 2-6 (Prentisiaethau Gradd), gan ddod â chyfanswm nifer y cymwysterau sydd ar gael i ychydig dros 350. Mae yna brentisiaethau yng Nghymru ar gyfer dros 1,500 o swyddi — o beirianneg i adeiladu cychod.

Er hynny, nid yw pob cymhwyster ar gael nac yn cael ei ddarparu fel prentisiaethau yng Nghymru. Bydd yr argaeledd a'r angen am ddarpariaeth yn amrywio rhwng y darparwyr a gofynion amrywiol cyflogwyr ar draws rhanbarthau Cymru.

Caiff darparwyr contractau dysgu seiliedig ar waith, sy'n cynnwys Prentisiaethau, eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd maent yn cael eu dyfarnu i 10 darparwr ar draws Cymru. Mae'r contractau hyn yn cael eu rheoli a'u darparu gan 6 Choleg Addysg Bellach a 4 Darparwr Hyfforddiant yng Nghymru, ac mae modd i'r rhain is-gontractio'r ddarpariaeth i ddarparwyr hyfforddiant eraill hefyd.

Yn yr ystadegau swyddogol, mae'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith wedi'i rhannu'n 14 o grwpiau sector diwydiant.

| **Sectorau Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith** | |
|---|---|
| Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus | Adeiladu |
| Peirianneg | Gweinyddu Busnes |
| Hamdden, Chwaraeon, Teithio | Rheolaeth |
| Amaethyddiaeth | Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| Lletygarwch | Trin gwallt |
| Cyfryngau a Dylunio | Gweithgynhyrchu |
| Cludiant | Sectorau eraill, heb eu diffinio |

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# 7. Gwerth Economaidd Prentisiaethau

## Cyllid a Chostau i Gyflogwyr

Yng Nghymru caiff y Rhaglen Brentisiaeth ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop (*ESF*). Mae'r Ardoll Prentisiaethau (Porth Sgiliau Busnes Cymru) yn dreth cyflogaeth sy'n berthnasol i holl gyflogwyr y DU, ac yn un y mae'n rhaid i gyflogwyr sydd â 'bil cyflog' blynyddol o dros £3 miliwn ei thalu. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu polisi fydd yn cefnogi anghenion cyflogwyr mewn meysydd blaenoriaeth ar draws Cymru, waeth beth fo'u statws ardoll.

## Manteision i Brentisiaid a Chyflogwyr

Darparodd adroddiad The St Martins Group: The Real Costs and Benefits of Apprenticeships gymhariaeth o ganlyniadau marchnad lafur y rhai a gwblhaodd brentisiaethau a chanlyniadau is-grŵp eraill y farchnad lafur rhwng 2017 a 2020:

- Roedd y gyfradd gyflogaeth ymhlith y rhai a gwblhaodd yn 86% ar gyfartaledd, 10% yn uwch na'r farchnad lafur ehangach
- Roedd y gyfradd ddiweithdra ymhlith y rhai a gwblhaodd yn 2.5% ar gyfartaledd, tra bod cyfartaledd yr economi yn 4.2%
- 2.8% oedd y gyfradd ddiweithdra gyfartalog ar gyfer graddedigion a 10% ar gyfer y rhai heb unrhyw gymwysterau

Canfu Gwerthusiad o'r Rhaglen Gradd-brentisiaethau Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Byddai 96% yn argymell y cynllun i eraill
- Roedd 28% (o'r prentisiaid) wedi cael dyrchafiad
- Dywedodd 19% o brentisiaid fod eu tâl wedi cynyddu (30% ar gyfer prentisiaid a gofrestrwyd cyn 2019)
- Roedd cyflogau cyfartalog yn y band cyflog £30,001–£40,000

Yr ymchwil mwyaf cynhwysfawr a diweddar ar bwnc 'gwerth economaidd Prentisiaethau' yw Adroddiad Gwerth Prentisiaethau i Gymru a gyflwynwyd i Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru gan Arad Research ym mis Medi 2015. Er ei fod wedi dyddio braidd, roedd y penawdau'n nodi:

- Mae unigolyn sy'n cyflawni prentisiaeth nodweddiadol yn codi cynhyrchiant o £214 yr wythnos
- Ar ôl hyfforddiant, bydd y buddion i gyflogwyr o ran allbynnau prentisiaid yn gyfuwch na'r costau hyfforddi

Yn fwy diweddar, canfu dadansoddiad CMI o'r model prentisiaeth (Saesneg) presennol y rhagwelir y bydd prentisiaid a gymhwysodd yn 2019 yn ychwanegu £7bn at yr economi erbyn diwedd 2029, sef elw o 300% ar fuddsoddiad. Canfu CMI fod busnesau sy'n defnyddio prentisiaethau rheoli lefel uwch wedi gweld enillion cynhyrchiant cyfartalog o £7,000 fesul prentis.

Mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW) ar 7 Mawrth 2023, datgelodd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi, fod Llywodraeth Cymru yn gohirio am flwyddyn y targed o greu 125,000 o brentisiaethau yn nhymor presennol y Senedd.

*"Roedd cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn flaenorol yn cefnogi tua 5,000 o brentisiaethau yng Nghymru bob blwyddyn. Heb y buddsoddiad hwnnw ac yn wyneb costau chwyddiant gwirioneddol ac anochel, rwyf wedi buddsoddi £36 miliwn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi prentisiaethau o safon, ar gyfer pob oed y profwyd eu bod yn helpu i ddatgloi enillion uwch mewn gyrfaoedd o ansawdd gwell fyth... Mae angen i ni ddarparu prentisiaethau a fydd yn cynyddu cynhyrchiant, yn creu swyddi o safon ac yn ymateb i anghenion sgiliau'r dyfodol, fel y ddarpariaeth gynyddol yn y sectorau sero net a digidol."*

## 8. Prentisiaethau ar draws rhanbarthau Cymru

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) wedi cyhoeddi eu Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol 3 blynedd 2022-2025, sy'n amlinellu'r sgiliau, cyflogaeth ac anghenion y dyfodol yn eu rhanbarthau.
Mae pob PSRh yn darparu adran benodol ar Brentisiaethau yn eu rhanbarth.
Mae nifer o themâu, heriau ac argymhellion sy'n gyffredin ar draws Cymru gyfan.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Yng Nghynllun Cyflogaeth a Sgiliau rhanbarth Gogledd Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar draws yr holl raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith, roedd 3,765 wedi cofrestru, gan ddangos cynnydd mewn prentisiaethau Lefel 3 a Lefel 4+.

Nododd eu hymchwil feysydd allweddol ar gyfer sylw a datblygiad:

- Mae gwahaniaethau mawr rhwng y rhyweddau yn parhau ar raglenni prentisiaeth e.e., mae nifer y merched sy'n mynd i mewn i faes Peirianneg ac Adeiladu yn isel iawn o'i gymharu ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gweinyddu a Rheoli Busnes.
- Mae angen mawr i ehangu'r cynnig Prentisiaethau Gradd presennol i gynnwys meysydd angen eraill yn y rhanbarth megis Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Adeiladu, Carbon Isel/ Ynni Gwyrdd ac Arweinyddiaeth a Rheoli
- Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn cynnig Prentisiaeth Gradd Ynni Carbon Isel a Chynaliadwyedd.
- Mae angen datblygu fframweithiau a llwybrau prentisiaeth newydd lle mae tystiolaeth o alw mewn sectorau, gan ganolbwyntio ar brentisiaethau L3+, gan gynnwys prentisiaethau gradd
- Datblygu'r ffrwd dalent oddi mewn i ac o addysg, ysgolion, prentisiaethau, Addysg Bellach ac Addysg Uwch
- Ymgyrch hyrwyddo ddiweddar a chyhoeddiad Llwybrau at Brentisiaethau yng Ngogledd Cymru

Regional Learning and Skills Partnership
South West Wales

Cyhoeddodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gorllewin Cymru eu Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn ddiweddar. Yn 2020-21 dechreuwyd 4,860 o brentisiaethau (2,665 yn llai yn 2021 nag yn 2018 oherwydd effaith y pandemig). Gofal Iechyd a'r Sector Cyhoeddus yw'r sectorau derbyn uchaf. Yn ôl tystiolaeth o'u harolwg diweddaraf, y prif resymau dros beidio â chyflogi prentisiaid yw:

- Materion yn ymwneud â rhoi amser i fentora/hyfforddi prentis
- Nid yw'r fframwaith prentisiaeth yn cyd-fynd â'u model/anghenion busnes
- Ansicr o'r broses
- Anhawster recriwtio ymgeiswyr addas
- Cyfyngiadau symudedd gweithwyr iau oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth
- Mae'r diwylliant gweithio o bell yn ei gwneud hi'n anodd mentora
- Angen gweithlu medrus "parod i weithio".
- Cyfyngiadau ariannol y cyflogwr

- Nododd 84% o gyflogwyr y Sector Cyhoeddus yn yr arolwg fod ganddynt brentisiaid.
- Yn y Sector Ariannol a Phroffesiynol, nodwyd gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y prentisiaethau.
- Mae angen prentisiaethau ar frys yn y crefftau canlynol:
    - Peintwyr ac Addurnwyr
    - Plastrwyr
    - Gosodyddion Brics
- Nid oes unrhyw ddarparwyr hyfforddiant yn Ne Orllewin Cymru yn cynnig Prentisiaeth Cynorthwywyr Gwaith Tir.
- Nodwyd bylchau prentisiaeth yn y Sector Ynni a Bwyd a Thir.
- Nododd y Diwydiannau Bwyd a Thir fylchau penodol yn y ddarpariaeth Prentisiaethau

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

Mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi datblygu eu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth dan saith thema allweddol drawsbynciol, gydag un o'u nodau allweddol dros y tair blynedd nesaf i *'ehangu'r cynnig Prentisiaeth ar lefelau uwch drwy ymateb i newidiadau polisi'r llywodraeth'.*

Nodir y meysydd allweddol canlynol y neu hadroddiad:

- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Brentisiaethau ar draws sectorau blaenoriaeth (gan gynnwys Prentisiaethau Uwch a Gradd) ac adeiladu ar fodelau llwyddiannus Prentisiaethau a Rennir *Aspire*, Y Prentis a Sgil Cymru.
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar Brentisiaethau gan gynnwys Prentisiaethau a Rennir a Lefel Gradd ar gyfer y diwydiannau technoleg ddigidol.
- Datblygu Prentisiaethau i fodloni gofynion sero net a chyflwyno cymwysterau i fodloni dyheadau.
- Sicrhau bod fframweithiau yn addas at y diben ac yn cynnig cydraddoldeb â safonau prentisiaethau yn Lloegr. Nodwyd y ffaith nad yw fframweithiau prentisiaeth yn bodloni anghenion busnes fel y prif reswm pam nad oedd ymatebwyr i arolwg yr PSRh yn cyflogi prentisiaid.
- Cynyddu recriwtio hyfforddwyr ac aseswyr i sicrhau capasiti oddi mewn i ddysgu seiliedig ar waith ôl-16, yn enwedig ar Lefel 4.
- Mae Prifysgol De Cymru (PDC) wedi datblygu Prentisiaeth Gradd benodol ar gyfer technolegau lled-ddargludyddion sy'n cael ei threialu'n llwyddiannus trwy *Nexperia*.
- Angen ehangu cynlluniau prentisiaeth ar y cyd, fel y rhai a ddatblygwyd yn y Sector Creadigol.
- Yn y sectorau Addysg, Iechyd a Gofal, cadarnhaodd dros 58% o'r cyflogwyr a holwyd eu bod yn cyflogi prentisiaid. Byddai'r sector yn elwa o'r modelau darparu Gradd a Phrentisiaeth a Rennir.
- Angen sefydlu llwybrau mwy effeithiol rhwng diwydiant ac addysg bellach er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo dysgwyr Addysg Bellach i'r sectorau lletygarwch, manwerthu a thwristiaeth, yn enwedig i faes prentisiaethau.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

Un o'r amcanion allweddol a nodwyd yng Nghanolbarth Cymru yn eu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth diweddar yw:

*'Sefydlu cynllun prentisiaeth rhanbarthol (gan gynnwys prentisiaethau a rennir) sy'n pontio ac yn alinio'r sectorau cyhoeddus a phreifat sy'n cydnabod trosglwyddedd sgiliau.'*

Yn rhanbarth Canolbarth Cymru, nododd eu harolwg cyflogwyr:

- Dywedodd 42% o ymatebwyr eu bod yn cyflogi prentisiaid ar hyn o bryd.
- O'r 58% o gyflogwyr nad ydynt yn cyflogi prentisiaid, y prif reswm a roddwyd oedd nad yw fframweithiau Prentisiaeth yn diwallu anghenion busnes (19%).
- Ymhlith y rhesymau 'eraill' dros beidio â chyflogi prentisiaethau mae:
    - 'nid oes unrhyw brentisiaethau ar gael yn lleol sy'n addas i'n diwydiant',
    - 'rydym ni mor brysur fel na allwn neilltuo'r amser i ddysgwyr / hyfforddiant mewnol'
    - 'amhosib defnyddio pobl sydd heb sgiliau technegol uwch'.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

## 9. Gwybodaeth Bellach

Mae amrywiaeth eang o ffynonellau gwybodaeth ar gael i arwain rhieni, myfyrwyr, cyflogwyr ac oedolion ar lwybrau i brentisiaethau a darpariaeth yng Nghymru gan:

Llywodraeth Cymru  Prentisiaethau – Dewis Doeth

Gyrfa Cymru  Prentisiaethau

Cyflogwyr sy'n cynnig Prentisiaethau

Chwilio am Brentisiaethau

Busnes Cymru  Porth Sgiliau

Prentisiaethau Gradd yng Nghymru:

Darpariaeth Prentisiaethau Gradd – CCAUC

Prentisiaethau gradd - Dysgwch fwy yma (ucas.com)

Prentisiaethau Gradd | Gyrfa Cymru